# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Willow Hall Residential Care Home limited**

**Willow Hall Residential Home**
**Ffordd y Gogledd**
**Caernarfon**
**LL55 1BA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/04/2024

# Willow Hall Residential Care Home limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | WILLOW HALL RESIDENTIAL CARE HOME LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (RISCA. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal o ansawdd da. Mae'r staff gofal yn amyneddgar ac yn garedig, ac maent yn mynd at y bobl mewn ffordd dyner ac urddasol. Mae'r bobl yn cael eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl ac mae ganddynt eu harferion eu hunain. Caiff yr ardaloedd byw cymunedol a'r ardaloedd bwyta eu gosod i alluogi'r bobl i gymdeithasu â'i gilydd ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel crefft, canu neu wylio adloniant. Mae ffrindiau a theuluoedd y bobl yn cael croeso, a gwelsom y bobl yn mwynhau amser gyda'u hanwyliaid.

Mae'r tîm rheoli yn adnabod y bobl yn dda ac maent yn ymrwymedig i sicrhau bod y bobl wrth wraidd y gwaith o gynllunio eu gofal. Mae'r anghenion gofal unigol yn cael eu nodi'n glir, a chaiff gofal ei gynllunio o amgylch yr unigolyn. Mae'r darparwr a'r tîm rheoli'n sicrhau bod y bobl mewn cysylltiad â gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill yn ôl yr angen.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau llesiant y bobl. Mae gan y tîm rheoli drefniadau goruchwylio effeithiol a chadarn ar gyfer ansawdd y gofal a ddarperir i ddiwallu anghenion unigol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, sy'n briodol ar gyfer diwylliant ac iaith llawer o bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, a'u hiaith gyntaf yw Cymraeg. Mae arwyddion dwyieithog drwy gydol y gwasanaeth ac mae amrywiaeth o lyfrynnau, gan gynnwys canllaw y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Datganiad o Ddiben hefyd ar gael yn y ddwy iaith. Mae'r mwyafrif o'r staff gofal yn siarad Cymraeg a gallant sgwrsio â'r bobl yn eu dewis iaith. Mae'r gwasanaeth yn drefnus, yn gartrefol ac yn gynnes iawn. Mae'r ystafelloedd gwely a'r ardaloedd wedi cael eu

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The*

hailaddurno neu mae cynlluniau i wneud hyn, er mwyn diwallu anghenion a dewisiadau unigol.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r bobl i'w gweld yn hyderus ac yn fodlon ar y staff gofal. Gwelsom y bobl yn ymateb yn dda i anogaeth a chymorth y staff gofal. Mae'r tîm o staff gofal yn annog y bobl, ac mae'r tîm rheoli yn arwain y ffordd hon. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu i alluogi'r bobl i ddewis sut a ble yr hoffent dreulio eu hamser. Mae gosodiadau, megis canllawiau a chymhorthion symudedd ar gael i unigolion.

Mae'r gofal wedi'i gynllunio o amgylch llesiant corfforol a meddyliol unigol y bobl. Mae ffordd gadarnhaol a charedig y staff gofal yn allweddol er mwyn cynnal a hybu canlyniadau llesiant cadarnhaol. Mae goruchwyliaeth ac ymrwymiad ymarferol y tîm rheoli yn golygu y caiff y cofnodion gofal a'r gofal a ddarperir eu cynllunio a'u haddasu yn unol ag unrhyw newidiadau mewn anghenion gofal. Mae'r amgylchedd yn olau, yn lân ac yn gartrefol ac mae'r bobl yn cael dewis sut i addurno eu hystafelloedd, ag eitemau personol a décor.

Mae systemau ar waith i sicrhau y caiff risg i'r bobl ei leihau a bod y bobl mor ddiogel ag y gallant fod. Mae'r asesiadau cychwynnol yn nodi risgiau posibl i unigolion yn effeithiol. Mae'r staff gofal yn cael amrywiaeth o hyfforddiant ar feysydd fel diogelu, iechyd a diogelwch a symud a chodi a chario. Mae'r tîm rheoli yn llunio asesiadau risg unigol yn unol â'r risgiau posibl a nodwyd. Mae'r rhain yn cael eu diweddaru pan fydd anghenion gofal yn newid. Caiff yr amgylchedd ei fonitro i sicrhau y caiff risgiau eu lleihau. Gwelsom fod cynlluniau i gael lloriau newydd ar y diwrnod roeddem yn ymweld.

Mae'r bobl wrth wraidd cynlluniau'r amgylchedd, ac mae hyn yn gadarnhaol oherwydd gall y bobl ddewis décor a chynlluniau lliw sy'n olau; mae hyn yn dda ar gyfer llesiant meddyliol. Caiff yr ardaloedd cymunedol eu gosod fel bod y bobl yn gallu mwynhau gweithgareddau, prydau ac adloniant amrywiol. Mae digon o le i'r staff gofal, gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld, teuluoedd, a ffrindiau dreulio amser gyda'r bobl. Mae'r tîm rheoli'n adfer ac yn adnewyddu'r gwasanaeth yn effeithiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw ar gyfer llesiant y bobl.

## Gofal a Chymorth

Gwnaethom edrych ar sampl o gynlluniau personol. Gwelsom eu bod wedi'u cofnodi mewn system sy'n annog tasgau amrywiol a chaiff ei diweddaru ar ôl i bob tasg gael ei chwblhau. Mae gan y staff gofal ddyfeisiau electronig lle maent yn cofnodi unrhyw weithgareddau gofal a gynhelir drwy gydol pob diwrnod. Mae'r cofnodion a welsom yn fanwl ac yn adlewyrchu anghenion unigol. Caiff yr holl gofnodion gofal eu hadolygu'n systematig yn fisol neu pan fydd anghenion gofal yn newid. Mae trefniadau monitro a diweddaru cynlluniau personol yn effeithlon, yn drylwyr ac yn amserol. Dywedodd y teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld wrthym fod y cyfathrebu'n dda. Dywedodd y teuluoedd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad o'r anghenion gofal. Dywedodd un teulu a oedd yn ymweld wrthym eu bod yn teimlo bod y staff gofal a'r tîm rheoli yn gwrando ar eu barn. Dywedodd gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld wrthym fod y staff gofal a'r tîm rheoli yn dilyn canllawiau amrywiol mewn perthynas ag anghenion iechyd yn effeithlon.

Caiff asesiadau trylwyr eu cynnal cyn i'r bobl symud i'r gwasanaeth. Mae hyn i sicrhau bod anghenion gofal y bobl yn hysbys a gellir eu diwallu. Ychwanegir at y wybodaeth hon wedi i'r bobl symud i'r gwasanaeth. Caiff safbwyntiau amrywiol gan y bobl, ffrindiau, a gweithwyr proffesiynol eu cynnwys a'u hystyried wrth i'r cynlluniau personol gael eu llunio. Caiff y bobl eu hannog i barhau â'r arferion yr oedd ganddynt cyn symud i fyw yn y gwasanaeth. Mae'r cofnodion gofal yn dangos eu bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, eu monitro'n briodol ac yn rheolaidd, a'u bod yn glir ac yn gryno.

Gall y bobl gael gafael ar apwyntiadau gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol. Gwnaethom siarad â gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld ar y diwrnod roeddem yn arolygu. Gwnaethant ddweud wrthym fod y cyfathrebu yn rheolaidd, yn glir, ac yn amserol. Gwelsom fod y cofnodion yn y cynlluniau gofal yn dangos bod y gweithwyr proffesiynol wedi darparu canllawiau. Caiff y canllawiau hyn eu dilyn gan y staff gofal a gwelsom fod y cofnodion yn cael eu haddasu fel y bo'n briodol. Gwelsom y gwnaed cysylltiadau priodol ac amserol â'r gweithwyr proffesiynol ac mae'r cofnodion yn dangos gohebiaeth rhwng y darparwr, y staff gofal a'r gweithwyr proffesiynol; mae'r rhain yn cynnwys therapyddion galwedigaethol, meddygon teulu a deietegwyr. Lle y bo'n bosibl, caiff gofalwyr allweddol eu neilltuo i'r bobl. Mae hyn yn golygu bod yr un gofalwr yn gyfrifol am adolygu a monitro anghenion iechyd y bobl. Mae hyn yn rhoi parhad i'r bobl a'u teuluoedd.

Mae proses feddyginiaethau sefydledig ac effeithlon ar waith. Mae'r tîm rheoli yn monitro'r broses hon yn effeithiol drwy gynnal gwiriadau rheolaidd, i sicrhau ei bod yn gadarn, yn gyson ac yn ddiogel. Gwnaethom edrych ar y cofnod rhoi meddyginiaeth, sy'n dangos bod y staff gofal yn cwblhau'r cofnod hwn yn gywir. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus yn rhoi meddyginiaeth. Maent wedi cael hyfforddiant ar feddyginiaeth, a

chaiff cymwyseddau eu gwirio. Mae hyn yn amlwg yn eu ffeiliau staff gofal, y cofnodion goruchwylio a'r matrics hyfforddiant hefyd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r fynedfa i'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae'r staff gofal yn cynnal gwiriadau priodol ar gyfer yr ymwelwyr sy'n dod i'r gwasanaeth. Gofynnwyd i ni gofrestru i mewn i'r adeilad am ragofalon diogelwch tân. Mae'r amgylchedd yn fawr, yn lân, yn gartrefol ac yn drefnus iawn. Mae llawer o arwyddion a dogfennau sydd ar gael yn ddwyieithog, oherwydd y “Cynnig Rhagweithiol”. Mae'r rhain yn cynnwys y datganiad o ddiben, cynllun gweithgareddau'r flwyddyn, a'r canllawiau perthnasol. Gwelsom amrywiaeth o addasiadau a chymorthion cerdded ar gyfer y bobl, er mwyn annog a chefnogi annibyniaeth.

Gwelsom fod systemau ar waith i fonitro'r amgylchedd. Gwelsom sampl o archwiliadau ar ddiogelwch tân, gwiriadau trydanol, ac ar yr amgylchedd yn gyffredinol. Mae asesiadau risg perthnasol ar waith. Mae'r archwiliadau a welsom yn dangos amrywiaeth o dasgau yn cael eu cynnal a'u cwblhau, ac mae hyn yn dangos bod cynllun parhaus i wella'r amgylchedd. Cafodd unrhyw faterion a welsom ar y diwrnod eu datrys ar unwaith. Mae'r rhain yn cynnwys cael bollt ar gyfer drws nad oedd wedi'i gloi a threfnu i gael lloriau newydd ar y diwrnod ar ôl i'r arolygiad gael ei gynnal. Mae mesurau hylendid bwyd ar waith. Mae staff y gegin wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd a chafodd y gegin sgôr hylendid bwyd o bump, sef y sgôr uchaf sydd ar gael. Caiff tymheredd yr ystafell a'r oergell eu monitro a'u cofnodi'n gywir.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau da ar waith i fonitro ansawdd y gofal. Gofynnir i'r bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol am adborth. Cynhelir cyfarfodydd staff a chyfarfodydd preswylwyr hefyd yn rheolaidd. Ar ben hynny, mae archwiliadau misol yn cynhyrchu gwybodaeth sydd hefyd yn cael ei chasglu a'i defnyddio i gynllunio gwelliannau neu ddigwyddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliadau ar gynlluniau personol, meddyginiaeth a'r amgylchedd. Gwelsom dystiolaeth fod pob archwiliad yn cael ei oruchwylio gan yr unigolyn cyfrifol. Caiff gwybodaeth ei rhannu â'r unigolyn cyfrifol, sy'n llunio adroddiad ar y gwelliannau a wnaed a'r gwelliannau sydd ar waith ar gyfer y dyfodol. Caiff yr amserlenni ar gyfer gwelliannau eu monitro mewn modd amserol. Mae trefniadau goruchwylio ansawdd y gofal yn effeithiol, yn gadarn ac yn barhaus.

Mae'r darparwr yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol parhaus i'r gwasanaeth ac yn gwneud yn siŵr bod trefniadau goruchwylio parhaus ar waith. Gwelsom fod sawl maes wedi'i wella ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r system cofnodion gofal yn effeithiol a dibynadwy ac mae'n hyrwyddo ac yn galluogi'r staff gofal i ymgymryd â'u rôl gofalu yn effeithiol.

Mae sawl ystafell wely wedi cael ei hadnewyddu. Mae'r lolfeydd cymunedol a sawl coridor wedi cael eu gwella neu mae cynlluniau i'w gwella. Caiff yr ystafelloedd gwely eu haddurno yn unol â dewisiadau unigol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus â'u hystafelloedd gwely. Mae'r trefniadau gwella a buddsoddi parhaus gan y darparwr yn gadarnhaol ar gyfer llesiant cyffredinol y bobl.

Mae mesurau ar waith i recriwtio staff gofal yn ddiogel. Gwelsom fod y tîm o staff gofal yn sefydledig a dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Roedd y lefelau staffio ar ddiwrnod ein hymweliad yn ddigonol. Gwnaethom edrych ar rotas y staff dros y misoedd diwethaf ac roeddent yn dangos lefelau staffio digonol. Mae'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio a hyfforddi swyddogol yn rheolaidd. Mae hyn yn cefnogi'r staff gofal ac yn eu galluogi i gynnal eu dyletswyddau gofal yn llwyddiannus. Mae'r cofnodion goruchwylio yn dangos bod y staff gofal yn cael eu cefnogi'n rheolaidd ac yn unol â'r rheoliadau. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn cael cyfle i drafod unrhyw faterion sy'n codi neu a all effeithio ar eu rolau gofalu. Gwelsom fod cyfleoedd hyfforddi yn cael eu cynllunio yn ystod y sesiynau goruchwylio. Mae'r darparwr yn gweithio'n agos gyda'r tîm rheoli, ac maent yn cyfathrebu'n ddyddiol. Dywedodd y tîm rheoli wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac maent hefyd yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol yn rheolaidd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/06/2024